# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher 19eg o Orffennaf 2023 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cyng I Saer (Cadeirydd), D Lewis, W Evans, G Evans, C Smoothy, H James, Cyng J Lewis (CSC). Clerc ymadawol – R Gallie, Clerc byr-dymor – L Jones

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cyng S Pask

**2: COFNODION**: Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 17eg o Fai a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Clerc L Jones ar item 6 – cyflog clerc, Cynghorwyr Jean Lewis & G Evans are item 9 – cynllunio.

**4: MATERION YN CODI:**

Nododd y clerc ei fod dal yn digwyl am gwblhad archwiliad Archwilwyr Cymru.
Nododd y clerc hefyd fod R Jackson wedi cytuno i'r cynnydd yn y rent ac ei fod wedi talu'r cyfanswm dyledus.
Bydd y clerc yn dilyn i fyny'r cais am olau ychwanegol yng Nghwmfelinmynach.
Gofynnodd y Cyng Saer am ddolen drws newydd i'r blwch ffôn yn Blaenwaun. Byddai'r clerc yn trefnu hyn.
Adroddodd Cyng.W Evans a'r Cynghorydd Sir J Lewis eu bod wedi cyfarfod gyda'r Adran Priffyrdd ac fod y gwaith angenrheidiol rhwng Capel Ramoth a Chyffordd Fferm Bumper yn mynd i'w cael ei wneud ond nid oedd y gyllideb yn galluogu'r holl waith angenrheidiol o fewn y plwyf cael ei wneud.
Cafwyd diweddariad gan y Cynghoryddc Sir J Lewis y byddai cyfyngiad cyflymder Blaenwaun yn cael ei ostwng i 20mya yn unol a'r gotyngiadau ledled Cymru.
Nodwyd fod angen i'r arwydd post yn Passby cael ei ail-osod eto.

**5: CYTUNO CYFLOGAETH CLERC NEWYDD**

Cyflwynodd y clerc ymadawol y clerc dros-dro newydd a chafodd ei chroesawu gan y Cyngor. Roedd peth gweithgaredd trosglwyddo eisioes wedi cael ei wneud. Roedd cynllun mewn lle i orffen trosglwyddo dyletswyddau.
Nododd y clerc dros-dro ni fyddai yn medru ymrwymo i wneud y swydd o mis Ionawr am 4 mis ac fe gytunodd y Cynghorwyr byddai angen gwneud trefniadau arall o'r dyddiad hyn.

**6: CYTUNO CYFLOG Y CLERC NEWYDD**
Gadawodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis ac y Clerc Liza Jones y cyfarfod tra fod y mater yn cael ei drafod.

Awgrymwyd cynnyddu cyflog y clerc i £4200 y flwyddyn (£350 y mis) fel adlewyrchiad o'r dyletswyddau a chyfrifoldebau parhaol y swydd.
Cytunwyd hyn gan yr holl Gynghorwyr.

**7: CYTUNO RHEOLAU SEFYDLOG NEWYDD**

Awgrymodd y Clerc fod y Rheolau Sefydlog newydd a ddarparwyd gan Un Llais Cymru, a oedd yn adlewyrchu y rheolau newydd yn cael eu cymeradwyo. Adolygodd y Cynghorwyr y rheolau ac fe'u derbyniwyd.

**8: TRAFOD CYNNAL A CHADW BLYNYDDOL CAEAU CHWARAE BLAENWAUN**

Awgrymwyd defnyddio adeiladydd lleol i wneud y gwaith cynnal a chadw ar y cae chwarae â'r ardal chwarae.
Cytunodd y Cynghorwyr gyfarfod ar y caeau cyn y cyfarfod nesaf i wneud rhestr o waith angenrheidiol i wella'r cyfleusterau fel bod amcan pris yn medru cael ei ddarparu.
Cytunwyd i edrych mewn i weld a fedir darganfod peiriant torri porfa arall.

**9: GOHEBIAETH:**

1- Roedd llythyr wedi dodi law wrth Clarke Telecom parthed Cais cyn-gynllunio am osod peilon ffôn : CTIL-306407 TIR YN LLANWINIO parth codi mast ffôn symudol ar dir tu ôl Eglwys Llanwinio

Gadawodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis ac y Cynghorydd G Evans y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei drafod.

Cafwyd gyrychiolaeth wrth aelod o'r cyhoedd ynghlyn a'r mater yma. Gwrthwynebwyd y cais am y rhesymau isod:

a) Nid oes angen y mast gan fod un eisioes gerllaw ar Fferm Pantymaen. Dylsai hwn cael ei rannu gan rhwydweithiau eraill cyn codi mast newydd.
b) Mae'n rhy agos i nifer o ddeilliadau – gan gynnwys un sydd 350 troedfedd i ffwrdd, gan gynnwys ystafelloedd gwely plant.
c) Mae pryderon am ymbelydredd mast mor agos at gartrefi, yn enwedig gan bydd yn debygol o gael ei ddefnyddio yn y dyfodol am wasanaethau 5G.
ch) Nid yw coed yn debygol o guddio'r mast ac mae nifer o'r coed yn dioddef o afiechyd coed onnen.
d) Bydd drws nesaf i'r eglwys sydd o bwysigrwydd hanesyddol lleol.

Yn dilyn trafodaeth, cytuodd y Cynghorwyr dylsai'r pryderon uchod cael eu codi gyda Clarke Telecom.
Ar ddychweliad y Cynghorydd G Evans i'r cyfarfod, nododd nad oedd wedi cael ei wneud yn ymwybdodol o union lleoliad y mast ar ei dir ac nododd petai unrhyw bryder gan y gymuned am y mast, ni fuasau'n cefnogi'r cais.

2- Un Llais Cymru parthed Rheolau Sefydlog newydd. Mae rhain wedi cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Cyngor.
3- Archwilwyr Cymru gyda cwestiynnau ychwanegol parthed penderfyniadau Cofrestru yn 1983. Roedd y clerc ymadael wedi ymateb y cwestiynnau.

**10: DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Llôg | £36.92 |
| Rhent Tir – GE + JA James | £869.00 |
| Rhent Tir – RG Jackson | £231.25 |
| Tyrbein Gwynt GVO – Llês Cymdeithasol | £3542.38 |
| Grid Cenedlaethol – Taliad Fforddfraint | £36.70 |

**11: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Trydan SSE | £161.46 |
| Yswiriant BHIB | £699.75 |
| Rhodd – Urdd Gobaith Cymru | £1000.00 |
| Y Cardi Bach – Hysbyseb Clerc | £20.00 |
| Rosemarie A Davies | £72.00 |

**12: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £30,543.53 |
| Cyfrif Trysorydd | £11,759.54 |
| Cyfanswm o | £42,303.07 |

**13: CYNLLUNIO:**

PL/06146 – Codi annedd a mynediad newydd – Tir gyferbyn Gwynfryn, Cwmfelinmynch, Hendygwyn, SA34 0DH. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan y Cynghorwyr

**14: Unrhyw fater arall:**

Cyflwynodd y clerc yr argymhellion wrth yr Archwilydd Mewnol. Cytunwyd hyn gan yr holl Gynghorwyr.
Cododd y Cyng Smoothy dylsai'r maes chwarae cael ei archwilio yn flynyddol. Cytunodd y Cynghorydd Sir J Lewis edrych mewn i pwy oedd yn gwneud archwiliadau Meidrim.
Darparodd y Cyng Smoothy peth manylion costau cyfarpar newydd gan gyflenwr lleol yn dilyn adolygiad o'r parc. Cytunodd y Cyng Smoothy gadarnhau a oedd y costau yn cynnwys gosod ac arwynebedd.
Cododd y cynghorwyr bryder am safon torri cloddiau eleni. Nododd y Cynghorydd Sir ei bod wedi codi'r mater gyda'r Cyngor Sir eisioes.
Ymholodd y cynghorwyr am y coed Onnen o Blaenwaun i heol Hendygwyn. Cytynodd y Cynghorydd Sir godi'r mater gyda'r Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod cyffredinol nesaf nos Fercher 20fed o Fedi 2023 am 8:00pm yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**